

Datblygiad Dynol

Cynnwys:

Darn 1: Ffeithlun sydd yn archwilio model Maslow- Tudalen 2

Rhestr Cyfeirnod- Tudalen 3

Darn 2: Y Cysyniad o Ddatblygiad Plentyn Cyfannol- Tudalen 4-6

Rhestr Cyfeirnod- Tudalen 7

Darn 3: Arwyddocâd Maslow o ran deall datblygiad plentyn- Tudalen 8-9

Rhestr Cyfeirnod- Tudalen 10

Ffeithlun Sydd yn archwilio Hierarchaeth Anghenion Maslow

HIERARCHAETH ANGHENION MASLOW

Mae Hierarchiaeth Anghenion Maslow yn ddamcaniaeth sy'n disgrifio'r anghenion sylfaenol y mae angen eu diwallu er mwyn i blentyn gyrraedd hunangyflawniad. Mae yna bum lefel i'r model gyda'r lefelau isaf yn cynrychioli'r anghenion sylfaenol a'r lefelau uchaf am yr anghenion ddatblygiadol mwy cymleth.



(Olivier, 2024)

Lefel 1: **Anghenion Ffisiolegol**

Anghenion ffisiolegol yw'r haen gyntaf o fodel Hierarchaeth Maslow. Mae'r lefel hyn yn cynnwys anghenion sylfaenol ar gyfer goroesi, fel bwyd, dŵr, a chysgod yn ôl theori Maslow. Credwyd Maslow (1943), heb ddiwallu'r anghenion hyn, ni all unigolyn symud ymlaen i lefelau uwch megis diogelwch, perthnasoedd, neu dwf personol. Yn ôl Burleson & Thoron (2014), anghenion ffisiolegol yw sylfaen yr hierarchaeth, gan eu bod yn hanfodol ar gyfer cynnal bywyd ac iechyd. Er enghraifft, bydd person newynog neu ddadhyddedig yn rhoi blaenoriaeth i ddod o hyd i fwyd a dŵr dros unrhyw beth arall. Dim ond pan fydd yr anghenion hyn yn cael eu bodloni y gall pobl symud ymlaen i fynd i'r afael â meysydd eraill o lesiant, fel diogelwch a chysylltiad emosiynol. Gall plentyn dangos ymddygiad aflonyddgar neu herfeiddiad oherwydd nid yw ei brif ffocws ar ddysgu ond ar ddiogelwch bwyd. Yn yr un modd, efallai y bydd myfyrwr yn dewis cysgu yn lle gorffen eu tasgau oherwydd nad oedd ganddynt ddigon o orffwys y noson flaenorol. Gan wneud cwsg yn sbardun i'w gweithredoedd yn hytrach nag ymgysylltiad academaidd (Burleson & Thoron, 2014). Fel ymarferydd, mae'n bwysig i sicrhau bod amgylchedd diogel a meithringar i'r plant lle bydd eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu.

Lefel 2: **Anghenion Diogelwch**

Yn ôl Maslow (1943), mae'r haen hon yn cwmpasu'r angen am ddiogelwch corfforol, sefydlogrwydd ariannol, iechyd, ac amddiffyn rhag perygl. Trwy ddiwallu'r anghenion hyn, mae unigolion yn teimlo'n sefydlog ac yn ddiogel yn eu hamgylchedd, gan eu galluogi i gyfeirio eu hegni tuag at weithgareddau mwy uwch fel meithrin perthnasoedd, dysgu, a chyflawniad personol (Burleson & Thoron, 2014). Dwedwyd Burleson & Thoron (2014), bod dysgwyr weithiau yn gweld diogelwch fel amgylchedd strwythuredig a rhagweladwy, lle mae rheolweithiau yn aros yn gyson. Maent yn pwysleisio, os fydd arferion yn absennol neu pan fydd tarfu arnynt, gall dysgwyr dangos pryder ac ymdeimlad o ansicrwydd. Gall hyn gael effaith negyddol ar eu perfformiad, gan arwain at lai o effeithiolrwydd yn eu dysgu oherwydd maent yn rhwystro eu gallu i ganolbwyntio ar gyflawni eu llawn botensial. Mae Burleson & Thoron (2014) yn awgrymu dylai lleoliadau addysgol a gweithle creu amgylchedd diogel, rhagweladwy a chefnogol sydd yn meithrin ymddiriedaeth ac yn caniatáu i unigolion ffynnu. Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn arbennig o arwyddocaol, gan eu bod yn aml yn cynrychioli eu profiad cyntaf o amgylchedd strwythuredig y tu allan i'w cartref. Felly, fel myfyrwr mae'n bwysig meithrin amgylchedd cynhwysol sydd yn bwysleisio ar gefnogaeth emosiynol, trwy annog empathi, parch, a chyfathrebu cadarnhaol effeithiol (Capes, 2024).

Lefel 3: **Anghenion Cariad a Pherthynas**

Mae trydydd lefel hierarchaeth, sef cariad a pherthyn Maslow, yn hollbwysig gan ei fod yn cyflawni'r angen dynol sylfaenol am gysylltiad, gan hyrwyddo lles emosiynol (Maslow, 1943). Yn ôl Taormina & Gao (2013), mae'r lefel hon yn amlygu pwysigrwydd perthnasoedd, gan gynnwys cyfeillgarwch, cysylltiadau teuluol, partneriaethau rhamantus, a chyfranogiad cymunedol. Maent yn awgrymu os mae unigolyn yn cael eu derbyn a'u gwerthfawrogi o fewn grwpiau cymdeithasol maen nhw'n cael ymdeimlad o bwrpas a sefydlogrwydd emosiynol, gan eu helpu i ffynnu yn bersonol ac yn gymdeithasol. Yn yr un modd mae Noltemeyer et al. (2012) yn dadlau, pan fydd unigolion yn profi ymdeimlad o gariad a pherthyn, maent yn fwy tueddol o deimlo'n ysgogol, yn hunan-sicr, ac yn fodlon, gan eu bod yn gallu canolbwyntio ar dwf personol, helpu eraill, a meithrin perthnasoedd ystyrlon. Fodd bynnag, heb yr ymdeimlad hwn o gysylltiad, gall unigolion gael trafferth gydag unigrwydd, teimladau o wrthodiad, neu arwahanrwydd cymdeithasol, a all gael effaith andwyol ar eu lles meddyliol, hunanwerth, ac effeithiolrwydd cyffredinol mewn amrywiol agweddau ar fywyd (Taormina & Gao, 2013). Felly, mae cariad a pherthyn yn darparu'r gefnogaeth emosiynol sy'n gyrru twf personol a harmoni cymdeithasol, gan weithredu fel pont rhwng anghenion sylfaenol diogelwch a'r gweithgareddau uwch o barch a hunan-wireddu.

Lefel 4: **Anghenion Hunan Barch**

Mae Burleson & Thoron (2014) yn pwysleisio bod pedwerydd lefel hierarchaeth Maslow, anghenion hunan barch, yn chwarae rhan hanfodol gan ei fod yn canolbwyntio ar hunanwerth, cyflawniadau a chydabyddiaeth unigolyn. Maent yn esbonio bod yna dwy brif agwedd: hunan-barch, sy'n cynnwys hyder, annibyniaeth, a chymhwysedd personol, a pharch allanol, gan gwmparu parch, statws, a chydabyddiaeth gan eraill. Mae diwallu'r anghenion hyn yn helpu unigolion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn alluog, gan wella eu cymhelliant a'u hymdeimlad o bwrpas (Burleson & Thoron, 2014). Yn ôl Poston (2009), mae diwallu anghenion parch yn hanfodol ar gyfer datblygiad personol a lles cyffredinol. Pan fydd gan unigolion hyder yn eu galluoedd ac yn cael cydnabyddiaeth am eu hymdrechion, maent yn fwy tueddol o groesawu heriau, anelu at ratoriaeth, a dilyn amcanion pwrpasol. Mae'r lefel hon yn meithrin parhad, gan alluogi unigolion i lywio rhwystrau a dyfalbarhau trwy adfyd (Burleson & Thoron). Ar y llaw arall, pan na chaiff anghenion parch eu diwallu, gall unigolion gael trafferth gyda theimladau o hunan-amheuaeth a diffyg egni. Gall diffyg hyder neu ymdeimlad o ddiffyg parch achosi iddynt encilio, cynhyrfu pryder, neu gilio rhag cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol (Poston, 2009).

Lefel 5: **Hunangyflawniad**

Pumed haen Maslow, hunan-wireddu, yw pinac ei hierarchaeth ac mae'n cynrychioli cyflawniad potensial a thwf personol. Yn ôl Poston (2009), mae'r cam hwn yn hollbwysig gan ei fod yn pwysleisio cyflawni eich dyheadau, mynegi creadigrwydd, a chanfod pwrpas, gan alluogi unigolion i fyw bywydau dilyn ac ystyrlon. Mae hunan-wireddu yn hynod bersonol, gan ei fod yn golygu dilyn nodau a gweithgareddau sy'n cydfynd â'u hangerdd, gwerthoedd a thalentau. Credwyd Poston (2009), pan fydd unigolion yn cyrraedd y cam hwn, mae ganddynt gymhelliant dwfn i barhau i ddysgu, tyfu, a gwneud cyfraniadau ystyrlon i'r byd. Maent yn dod yn llai dibynnol ar ddilysu allanol, gan dynnu cyflawniad o aliniad mewnol â'u gwir hunan. Mae hyn yn hyrwyddo creadigrwydd, empathi, ac ymdeimlad o gysylltiad, gan alluogi unigolion hunan-wirioneddol i chwarae rhan ganolog yn eu cymunedau a'u chymdeithas. Esbonwyd Poston (2009), mae arwyddocâd y lefel hon yn dangos ei gallu i ddarparu ymdeimlad o bwrpas a chyflawniad, gan gyfoethogi lles unigol a chyfunol. Mae'n annog pobl i fynd y tu hwnt i oroesiad sylfaenol a normau cymdeithasol, gan feithrin parhad, y gallu i addasu ac arloesi. Mae Capes (2024) yn awgrymu, mae creu amgylcheddau sy'n cefnogi creadigrwydd, chwilyfryddedd ac annibyniaeth yn allweddol i helpu unigolion i gyflawni hunan-wirionedd. Trwy addysg, gwaith pwrpasol, neu berthnasoedd ystyrlon, mae'r cam hwn yn cynrychioli gwreiddu potensial dynol, gan ymgorffori nod eithaf twf personol fel byw bywyd o gyflawniad ac effaith gadarnhaol.

Rhestr Cyfeirio

Burleson, S.E. and Thoron, A.C. (2014) 'Maslow's hierarchy of needs and its relation to learning and achievement', *EDIS*, 2014(4). doi:10.32473/edis-wc159-2014.

Capes, K. (2024) *Maslow's hierarchy of needs in education: Brooks and Kirk, Brooks and Kirk - The TAQA Training Industry Leader*. Available at:

<https://brooksandkirk.co.uk/understanding-maslows-hierarchy-of-needs-in-education/>

(Accessed: 27 November 2024).

Maslow, A.H. (1943). 'A Theory of Human Motivation', *Psychological Review*, 50(4), pp.370–396. Available at: <https://doi.org/10.1037/h0054346>.

Noltemeyer, A. *et al.* (2012) 'The relationship among deficiency needs and growth needs: An empirical investigation of Maslow's theory', *Children and Youth Services Review*, 34(9), pp. 1862–1867. doi:10.1016/j.childyouth.2012.05.021.

Olivier, E. (2024). *Maslow's Hierarchy of Needs*. ESKER. Available at:

<https://www.esker.com/sites/default/files/u32611/maslow-heirachy-of-needs.png>

[Accessed 25 Nov. 2024].

Poston, B., (2009). 'Maslow's hierarchy of needs.' *The surgical technologist*, 41(8), pp.347-353.

Taormina, R.J. and Gao, J.H. (2013) 'Maslow and the motivation hierarchy: Measuring satisfaction of the needs', *The American Journal of Psychology*, 126(2), pp. 155–177. doi:10.5406/amerjpsyc.126.2.0155.

Y Cysyniad o Ddatblygiad Plentyn Cyfannol

Cyflwyniad

Fel y nodwyd gan Brodie (2018), mae datblygiad cyfannol plant yn cyfeirio at ddull o hyrwyddo datblygiad ym mhob rhan o fodolaeth plentyn gan gynnwys yn corfforol, emosiynol, meddyliol, a cymdeithasol. Er mwyn deall hyn yn iawn, mae angen, yn gyntaf, deall beth yw cysyniad. Yn ôl Margolis & Laurence (2019), syniad haniaethol neu gynrychiolaeth feddyliol yw cysyniad sy'n ein galluogi i adnabod a deall ffenomenau cymhleth. Mae'r datblygiad cyfannol yn gysyniad lle mae gwahanol elfennau o dwf yn gysylltiedig â'r agwedd hon. Nid yn unig yr ydym yn edrych i mewn i ddatblygiad academiaidd neu gorfforol plentyn, gan fod datblygiad cyfannol yn cynnwys cydbwysedd o bob agwedd ar lesiant (Brodie, 2018). Yn y traethawd hwn, byddwn yn ymchwilio'n ddwfn i'r cysyniad o ddatblygiad plant cyfannol, gan gynnwys ei gysylltiadau â modelau fel Maslow a damcaniaethau eraill fel Vygotsky a Bowlby.

Chwarae

Yn ôl Brodie (2018) mae chwarae yn rhan annatod o ddatblygiad plentyn oherwydd pan fydd plant yn chwarae mae yna cynnydd corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol. Mae Brodie (2018) yn esbonio bod chwarae'n hyrwyddo plant i ddysgu am eu hamgylchedd sy'n eu galluogi i gael profiad o gyfleoedd i brofi eu synhwyrâu, yn ogystal â manteisio ar ryngweithio â phobl o'u cwmpas sydd yn gallu gynorthwyo eu proses ddysgu a datblygu. Credwyd Brodie (2018), bod plant yn meistrolï sgiliau hanfodol sy'n eu paratoi ymhellach ar gyfer dysgu trwy rhyngweithio gyda plant ac oedolion eraill. Yn ôl Brodie (2018), y ffordd y mae plant yn datblygu gwybyddiaeth emosiynol yw trwy ganfod emosiynau pobl eraill. Er enghraifft, os mae plant yn chwarae gem bwrdd, byddwn yn gweld sut mae'r plant eraill yn ymateb i golli neu ennill. Trwy chwarae maen nhw hefyd yn dysgu sut i reoli emosiynau fel dicter, tristwch a siom. Gellir cysylltu hyn â phersbectif dysgu Vygotsky, fel dysgu trwy ryngweithio â phobl eraill. Ar ben hynny, fel yr esbonia Smolucha & Smolucha (2021), mae gweithgareddau chwarae yn datblygu eu sgiliau corfforol; Mae sgiliau echddygol gain yn datblygu gyda gweithgareddau fel torri, gludo a lliwio. Lle mae sgiliau modur gros yn datblygu trwy weithgareddau dringo, rhedeg a neidio. Fel yr eglurwyd gan Brodie (2018), pwysleisiodd Piaget bwysigrwydd chwarae sensorimotor yn ystod plentyndod cynnar. Credwyd bod chwarae'n caniatáu i blant archwilio eu hamgylchedd, sy'n hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau modur ac ymwbyddiaeth ofodol.

Perthynas

Fel y nodwyd gan Brodie (2018), mae perthnasoedd yn bwysig, y berthynas rhwng plant a'u rhoddwyr gofal sylweddol yw'r cyswllt allweddol sydd yn darparu sylfaen ar gyfer datblygiad cyfannol plentyn gan gynnwys datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a hyd yn oed datblygiad corfforol y plentyn. Yn ôl Hinde & Stevenson-Hinde (1987), trwy berthnasoedd, credir bod plant yn dod o hyd i ymdeimlad o ddiogelwch, hunan-werth a bod byd allanol lle gallant weithredu. Mae profiad positif gyda gofawyr, cyfoedion, ac athrawon yn sylfaenol ar gyfer datblygiad iach trwy bob sector. Cyfuniad o sawl damcaniaeth sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd fel Bowlby a Maslow. Wrth i Bowlby (1979) bwysleisio, mae perthnasoedd diogel yn cefnogi dysgu gwytnwch emosiynol, hunanreoleiddio, ac ymdeimlad o berthyn mewn plant. Mae cysylltiadau cynnes a chariadol yn caniatáu i blant rannu emosiynau a datblygu sgiliau rheoleiddio emosiwn. Pan fydd ymlyniad diogel yn bresennol, mae plant yn dangos hyder, archwilio a rheoleiddio emosiynol adeiladol (Bowlby, 1979).

Yn ôl Brodie (2018), mae perthnasoedd yn effeithio ar iechyd corfforol plant. Mae amgylchedd iach hefyd yn sicrhau bod gan blant ddeiet cytbwys, anghenion meddygol a chyfle i ymarfer corff. Sylwodd Bowlby (1979), po fwyaf diogel yw'r ymlyniad, mae straen yn fwy tebygol o gael i reoleiddio, sydd yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar ein lles corfforol. Er enghraifft, gallai plentyn ddatblygu problemau treulio oherwydd straen neu bryder efallai. Fel y nododd Maslow yn ei Hierarchaeth o Anghenion, mae cariad a pherthyn yn anghenion sylfaenol. Credir bod plant yn cyflawni'r angen hwn trwy berthnasoedd cefnogol sy'n hyrwyddo lles cyffredinol, gan gynnwys iechyd corfforol (Mauree, 2022). Perthnasoedd yw blociau adeiladu sgiliau cymdeithasol plentyn, caiff plant eu dysgu sut i ryngweithio, cydweithio, a dod o hyd i rôl o fewn cymdeithas (Hinde & Stevenson-Hinde, 1987). Er enghraifft, esboniodd damcaniaeth Vygotsky arwyddocâd rhyngweithio cymdeithasol mewn dysgu a datblygu, gan ei fod yn cuynyddu hyder a pharod i weithio.

Mae Vygotsky yn ddamcaniaethwr a ddatblygodd ddamcaniaeth Parth Datblygiad Pryfomal (ZPD) lle bydd plant yn dysgu mwy o dan arweiniad un arall mwy gwybodus. Credir bod perthnasoedd gyda chyfoedion ac oedolion yn hynod bwysig, yn y ffaith eu bod yn cael eu hystyried yn un o flociau adeiladu dysgu sgaffaldiau. Mae damcaniaeth Erikson yn ôl Maree (2022), yn dangos effaith perthnasoedd ar ddatblygiad cymdeithasol, yn enwedig gyda chamau datblygu cynnar fel ymddiriedaeth a drwgdybiaeth. Felly, dangosir hyn fod perthnasoedd cadarnhaol yn ein harwain at ymddiriedaeth a hyder cymdeithasol

Diogelwch

Gan fod amgylchedd sy'n amddiffynol ac sy'n caniatáu i blentyn ddysgu, archwilio ac uniaethu â'r byd y tu allan heb ofni niwed yn allweddol i amgylchedd diogel, gall rhywun ddweud bod diogelwch yn ganolog i ddatblygiad cyfannol plentyn. Mae amgylchedd ddiogel yn lleihau'r siawns o anaf, ac yn annog iechyd, gan ganiatáu i blant gymryd rhan mewn ffurfiau chwarae egnïol a datblygiadol (Brodie, 2018). Mae'r angen am ddiogelwch yn anghenraid sylfaenol fel y dangosir yn Hierarchaeth Anghenion Maslow. Tybir mai diogelwch yw'r sylfaen ar gyfer datblygiad tuag at lefelau uwch fel datblygiad dysgu neu hunan-wireddu.

Mae amgylchedd diogel yn arwain at ymlyniad yn ôl Bowlby (1979). Mae Theori Ymlyniad John Bowlby yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd diogel â gofalwyr, sydd yn arwain at well sefydlogrwydd emosiynol a gwydnwch. Mae plant, sy'n teimlo'n ddiogel, yn fwy tebygol o archwilio eu hamgylchedd a chymryd rhan yn hyderus mewn dysgu (Bowlby, 1979). Felly, mae'n eithriadol o bwysig bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu dilyn fel ymarferwyr, wrth greu asesiadau risg i sicrhau bod diogelwch yn cael ei gadw drwy gydol y dydd. Oherwydd, gall plant ddysgu am beryglon y byd y maent yn byw ynddo, a thrwy hynny ddatblygu arfer o gydnabod peryglon posibl (Brodie, 2018).

Casgliad

Felly, mae ddatblygiad plentyn cyfannol yn aml-ddimensiwn sy'n cwmpasu datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol plentyn. Chwarae, perthnasoedd, diogelwch — pob un o'r pethau sy'n cyfuno i dyfu person cyflawn, gwydn. Mae damcaniaethau Vygotsky, Erikson a Maslow i gyd yn ategu ei gilydd trwy ddangos i ni faint sydd gan yr amgylchedd i'w gynnig o ran datblygu - gan gynnig bod amgylcheddau meithrin, ysgogol a diogel yn cyfrannu cymaint at ddatblygiad plentyn ym mhob agwedd. Bydd canolbwyntio ar yr holl feysydd cydberthynol hyn yn galluogi gofalwyr, addysgwyr a chymunedau i ddod â photensial hapus a llwyddiannus ein plant.

Rhestr Cyfeirnod

Bowlby, J. (1979) 'The Bowlby-Ainsworth attachment theory', *Behavioral and Brain Sciences*, 2(4), pp. 637–638. doi:10.1017/S0140525X00064955.

Brodie, K. (2018). *The holistic care and development of children from birth to three: an essential guide for students and practitioners*. Abingdon, Oxon; New York: Routledge.

Hinde, R. and Stevenson-Hinde, J. (1987). Interpersonal relationships and child development*1. *Developmental Review*, 7(1), pp.1–21. doi:[https://doi.org/10.1016/0273-2297\(87\)90002-5](https://doi.org/10.1016/0273-2297(87)90002-5).

Maree, J.G. (2022). *Influence Of Theorists And Pioneers On Early Childhood Education*. S.L.: Routledge.

Margolis, E. and Laurence, S. (2019) *Concepts*, *Stanford Encyclopedia of Philosophy*. Available at: <https://plato.stanford.edu/entries/concepts/> (Accessed: 01 December 2024).

Smolucha, L. and Smolucha, F. (2021) 'Vygotsky's theory in-play: early childhood education', *Early Child Development and Care*, 191(7–8), pp. 1041–1055. doi: 10.1080/03004430.2020.1843451.

Arwyddocâd Maslow o ran deall datblygiad plentyn

Cyflwyniad

Bydd yr ysfrif hyn yn sôn am arwyddocâd Hierarchiaeth Maslow o ran deall datblygiad plentyn. Byddwn yn archwilio tri enghraifft o arfer y blynyddoedd cynnar, gan esbonio'r pwysigrwydd o ddeall anghenion sylfaenol plant, sicrhau amgylchedd diogel a sefydlog a chefnogi trwy cyfnod o drawsnewid.

Tri enghraifft o arfer y blynyddoedd cynnar:

1. Deall y pwysigrwydd o anghenion sylfaenol plant:

Mae deall anghenion sylfaenol plentyn yn bwysig iawn fel myfyriwr blynyddoedd cynnar, gan ei fod yn adeiladu sylfaen am addysg a gofal effeithiol. Mae'r dealltwriaeth hyn yn galluogi myfyrwyr i gynnal amgylchedd meithringar, sydd yn cefnogi datblygiad cyfannol plant (Essex County Council, 2024). Mae Theori Maslow yn dangos y pwysigrwydd o ddiwallu anghenion sylfaenol plant, credwyd dylai anghenion sylfaenol plentyn cael ei diwallu cyn bod unrhyw dysgu digwydd (Solutions, 2024). Trwy ddiwallu'r anghenion hyn, mae ymarferwyr yn creu amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae hyn wedi arwain at addasiadau i ddulliau rheoli ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth (Brodie, 2024). Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn cynnig rhaglenni brecwast i sicrhau bod anghenion ffisiolegol sylfaenol plant yn cael eu diwallu ar ddechrau'r dydd. Mae hyn yn cefnogi lefel sylfaenol hierarchaeth Maslow, gan helpu i baratoi plant ar gyfer dysgu effeithiol.

Yn ôl Gordon (2023), mae cydweithio gyda rhieni/ gofawyr plant yn arwyddocaol ar gyfer eu ddatblygiad, gan ei fod yn galluogi myfyrwyr i gael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr am bob blentyn fel unigolyn a darparu dilyniant rhwng y cartref a'r lleoliad blynyddoedd cynnar. Hefyd, mae hyn yn galluogi myfyrwyr i wneud yn siwr bod pob plentyn yn cael cyfleuoedd cyfartal a theimlo eu bod yn cael eu chynnwys (Gordon, 2023). Mae hyn yn cysylltiedig gyda theori Bronfenbrenner a'i ddamcaniaeth o'r 'Ecological System'. Mae'n annelu at yr haenau, Microsystemau a Mesosystemau, sef y perthynas rhwng y plentyn a'i rhieni neu athrawon (Microsystem) ac hefyd y perthynas rhwng y rhieni a'r athrawon (Mesosystem) (Care Learning, 2024). Mae defnyddio theori Bronfenbrenner mewn sefydliad blynyddoedd cynnar yn creu amgylchedd cefnogol gan fod myfyrwyr yn gallu adnabod unigrywedd pob plentyn a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchedd.

2. Creu amgylchedd diogel a sefydlog:

Mae diogelwch yn agwedd allweddol sydd yn cyfrannu tuag at datblygiad cyfannol plentyn. Felly mae'n pwysig bod myfyrwyr blynyddoedd cynnar yn deall sut i ddarparu gofal diogel, er mwyn caniatáu plant i ddatblygu (Essex County Council, 2024). Er enghraifft, yn ôl Brodie (2024) mae anghenion diogelwch yn gallu cael eu ddiwallu trwy arferion cyson. Gall hyn fod yn creu amserlen. Mae hyn bwysig oherwydd mae'n creu rhagweladwyedd ac yn gallu leihau pryder yn

enwedig plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol (Mesibov, 2002). Fel myfyrwyr mae'n hynod o bwysig i sicrhau bod diogelwch ffisegol y plant yn cael eu gynnal, mae hyn yn cynnwys dileu beryglon fel nwyddau pigog a chadw sylweddau gwenwynig mewn lleoliad ni fydd y plant yn eu hymestyn (Vain, 2023). Yn ôl Vain (2023), mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n lleihau'r risg o ddamweiniau ac anafiadau. Mae amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n diogel yn lle byddan yn teimlo'n barod i ddysgu a datblygu'n gwybyddol (Maslow, 1943). Felly, mae sicrhau amgylchedd diogel a sefydlog yn diwallu pob lefel o Hierarchiaeth Maslow, gan fod myfyrwyr blynnnyddoedd cynnar yn gosod y sylfaen ar gyfer hyder, dysgu a datblygiad cyffredinol plant.

3. Cefnogi plentyn trwy gyfnod o newid:

Yn ôl Patel (2019), mae nyfyrwyr yn chwarae rôl arbennig mewn cyfnodau o newid, mae hyn yn gallu cynnwys newid ystafell neu sefydliad. Mae adeiladu ymlyniad diogel a phositif gyda'r plentyn a'u theulu yn sylfaenol. Er enghraifft, mae person allweddol (key person) yn ymddangos fel ffigur gyson i ddarparu diogelwch a sefydlogrdd emosiynol. (Patel, 2019). Mae hyn yn gallu cael ei sicrhau trwy wneud yn siwr bod myfyrwyr yn cyfathrebu'n eglur gyda rhieni'r plentyn, gan rhannu wybodaeth am anghenion a arferion y plentyn. Mae hyn yn cysylltu tuag ay theori Bronfenbrenner, gan fod cyfathrebu effeithiol rhwng cartref a'r sefydliad yn cefnogi trawsnewidiadau llyfn trwy alinio efo'i systemau. Mae pob plentyn yn wahanol, felly dylai cynlluniau yn y cyfnod trawsnewid fod yn unigoli. Er enghraifft, efallai bydd rhai plant yn eu weld hi'n annodd i ddweud sut maen nhw teimlo, felly mae'n syniad i chwarae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar lythrennedd emosiynol i helpu plant i adnabod a mynegi eu teimladau am y cyfnod pontio (Patel, 2019).

Trwy gynnal profiadau positif yn ystod cyfnod trawsnewid, mae myfyrwyr blynnnyddoedd cynnar yn helpu i ddatblygu gwydnwch a sgiliau ymdopi y gallant eu defnyddio yn y dyfodol (Patel, 2019). Mae cyfnod trawsnewid negyddol yn gallu achosi pryder, straen ac atcgweliad yn ei ddatblygiad, felly mae'n bwydig creu cyfnod positif i adeiladu ymddiried ac ymdeimlad o berthyn. Trwy ddiwallu'r anghenion hyn, gan gysylltu Hierarchiaeth Anghenion Maslow, yn ystod cyfnodau trawsnewid, mae myfyrwyr blynnnyddoedd cynnar yn creu amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo lles a datblygiad cyfannol plant (Care Learning, 2024). Yn ôl Patel (2019), mae'r ymagwedd hon yn gosod y sylfaen ar gyfer agweddau cadarnhaol tuag at drawsnewidiadau yn y dyfodol ac yn cefnogi datblygiad emosiynol a gwybyddol plant.

Casgliad

Felly, mae damcaniaeth Maslow yn dangos nid dysgwyr yn unig yw plant, ond unigolion sydd â anghenion cymleth ac unigryw. Mae'n amlwg ei fod yn angenrheidiol bod myfyrwyr yn creu amgylchedd sydd yn diwallu pob agwedd o les plentyn. Rydym yn gallu gweld bod damcaniaeth Maslow yn arwyddocal iawn o ran deall datblygiad plant.

Rhestr Cyfeirnod

Brodie, K. (2024). *Maslow's Hierarchy of Needs*. [online] Early Years TV. Available at: <https://www.earlyyears.tv/maslows-hierarchy-of-needs/>.

Care Learning. (2024). *What Is Bronfenbrenner's Theory? - Care Learning*. [online] Available at: <https://carelearning.org.uk/early-years/models-theory/what-is-bronfenbrenners-theory/>.

Essex County Council (2024). *Role of the adult*. [online] eycp.essex.gov.uk. Available at: <https://eycp.essex.gov.uk/the-early-years-foundation-stage/how-do-i-become-an-outstanding-practitioner/role-of-the-adult/>.

Gordon, R. (2023). *Ten Examples of Good Practice in the Early Years*. [online] earlyyears.wandsworth.gov.uk. Available at: <https://earlyyears.wandsworth.gov.uk/Article/145696>.

Maslow, A.H. (1943). A Theory of Human Motivation. *Psychological Review*, 50(4), pp.370–396. doi:<https://doi.org/10.1037/h0054346>.

Mesibov, G.B., Browder, D.M. and Kirkland, C. (2002). Using Individualized Schedules as a Component of Positive Behavioral Support for Students with Developmental Disabilities. *Journal of Positive Behavior Interventions*, 4(2), pp.73–79. doi:<https://doi.org/10.1177/109830070200400202>.

Patel, A. (2019). *Supporting Transitions in the Early Years*. [online] Teach Early Years. Available at: <https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/supporting-transitions-in-the-early-years>.

Solutions, E.T. (2024). *Overview of theorist that underpin Early Years Education*. [online] eden-ts.com. Available at: <https://eden-ts.com/hot-topics/overview-of-theorist-that-underpin-early-years-education/>.

Vain, C. (2023). *Safe environments for children | School, home & other places*. [online] CPD Online College. Available at: <https://cpdonline.co.uk/knowledge-base/safeguarding/safe-environments-for-children/>.